**TÎM COMISIYNU CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

# ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

| | |
|---|---|
| **Enw/Cyfeiriad y Darparwr:** | 65 Montclaire Avenue, Coed-duon, Caerffili, NP12 1FE |
| **Dyddiad/Amser yr Ymweliad:** | Dydd Mawrth 28 Mawrth 2017 |
| **Swyddog(ion) Ymweld:** | Amelia Tyler: Swyddog Monitro Contract, CBS Caerffili |
| **Yn Bresennol:** | Alison Moss: Rheolwr, CBS Caerffili |

## 1. Cefndir

**1.1** Mae Montclaire yn darparu gofal seibiant i unigolion rhwng 18 a 65 oed sydd ag anabledd dysgu. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru a'i reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Cofrestrwyd y gwasanaeth i gynnig gofal seibiant i hyd at 5 o unigolion ar y tro.

**1.2** Adeg yr ymweliad, roedd Montclaire yn darparu gofal seibiant i grŵp o 43 o unigolion. Mae hefyd 5 unigolyn yn cymryd rhan mewn ymweliadau cyflwyniadol.

**1.3** Cynhaliwyd yr ymweliad monitro blaenorol ar 15 Mawrth 2016 ac ar yr adeg honno nodwyd 5 cam gweithredu cywirol a 2 gam gweithredu datblygiadol. Diben yr ymweliad hwn oedd mynd ar drywydd yr argymhellion hyn a chwblhau rhannau perthnasol o'r offeryn monitro.

**1.4** Camau gweithredu cywirol yw'r rheini y mae'n rhaid eu cwblhau (fel sy'n cael eu llywodraethu gan ddeddfwriaeth ayyb.) a chamau gweithredu datblygiadol yw'r rheini sy'n cael eu hystyried yn arfer da.

## 2. Argymhellion Blaenorol

**2.1** Yr holl staff i gael hyfforddiant gorfodol yn unol ag NMS 26.1.
**Bodlonwyd yn rhannol.** Cafodd copi o'r matrics hyfforddiant ei ddarparu ac roedd hwn yn dangos bod rhai aelodau o staff heb fynychu'r hyfforddiant gorfodol neu heb gwblhau'r hyfforddiant diweddaru o fewn y terfyn amser gofynnol e.e. nid oedd 2 o weithwyr wedi cyflawni hyfforddiant cymorth cyntaf, nid oedd 4 o weithwyr wedi cwblhau hyfforddiant diweddaru ar gyfer hylendid bwyd, ac nid oedd 5 wedi mynychu hyfforddiant diweddaru diogelu o fewn y cyfnod o 3 blynedd a argymhellwyd. Cydnabuwyd bod un aelod o saff ar y matrics ar secondiad a bod un ar absenoldeb salwch tymor hir.

**2.2** Cynlluniau gwasanaeth i ganolbwyntio ar yr unigolyn, a'u llunio gan gynnwys yr unigolyn, teulu, ffrindiau neu eiriolwyr fel y bo'n briodol yn unol ag NMS 6.6.



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg, ac mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.
This document is available in Welsh, and in other languages and formats on request.

**Bodlonwyd yn rhannol.** Mae gwaith yn parhau ynghylch cynlluniau gwasanaeth a nodwyd bod y dirprwy reolwr bellach yn rhan o grŵp ffocws sy'n ceisio diwygio'r rhain. Dangosodd y Rheolwr enghraifft i'r Swyddog Monitro Contract a oedd wedi'i chyflwyno'n dda, yn glir, yn gryno ond yn cynnwys yr holl fanylion angenrheidiol. Ni ellid cwblhau unrhyw waith pellach ar hyn nes bod y grŵp wedi cytuno ar y fformat.

**2.3** Cynlluniau gwasanaeth i'w llofnodi gan yr unigolyn a/neu berthynas neu'r rheswm pam nad ydynt wedi'u llofnodi i gael ei ddogfennu'n briodol. NMS 6.6
**Ni fodlonwyd.** Nid oedd hwn wedi'i gwblhau adeg yr ymweliad ond dywedodd y Rheolwr y byddai hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam pan oedd y cynlluniau gwasanaeth newydd wedi'u cytuno a'u gweithredu.

**2.4** Adroddiadau Sicrhau Ansawdd blynyddol i'w cwblhau a'u rhannu gyda phob rhanddeiliad. NMS 30.4
**Ni fodlonwyd.** Dywedwyd wrth y Swyddog Monitro Contract fod yr adroddiad yn cael ei gwblhau ar gyfer y gwasanaeth seibiant cyfan yn CBS Caerffili a bod cyfarfod wedi'i drefnu yn y bythefnos nesaf i gasglu'r wybodaeth ac y byddai'r adroddiad wedyn ar gael erbyn diwedd mis Ebrill neu ddechrau mis Mai.

**2.5** Ffeiliau unigolion i'w cyflwyno yn drefnus ac yn cynnwys gwybodaeth gyfredol a pherthnasol er mwyn i staff allu cael at wybodaeth yn gyflym.
**Bodlonwyd.** Roedd y ffeiliau a welwyd yn drefnus ac roedd ganddynt fynegai clir yn y blaen i gynorthwyo unrhyw un i ddod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol. Nodwyd hefyd fod dogfennaeth briodol wedi'i harchifo.

**2.6** Staff i barhau i fynd ati i gofnodi unrhyw ganmoliaeth, dyddio unrhyw lythyrau neu gardiau a gafwyd ac anfon yr wybodaeth hon ymlaen i'r Tîm Comisiynu.
**Bodlonwyd yn rhannol.** Nodwyd bod y Rheolwr, ar ôl yr ymweliad, wedi anfon ymlaen e-bost cadarnhaol iawn a gafwyd gan berthynas; mae hwn yn rhywbeth y dylid ei annog a'i rannu lle bynnag y bo'n bosibl.

**2.7** Ystyried datblygu taflen lofnodi ar gyfer y ddogfen 'proffil personol' i brofi bod pob aelod o staff wedi'i darllen.
**Bodlonwyd.** Gwelwyd hyn ar y ffeil a welwyd yn ystod yr ymweliad a nodwyd bod dogfennaeth newydd yn cael ei llofnodi wrth iddi gyrraedd.

## 3. Canfyddiadau o'r Ymweliad

### 3.1 Dogfennaeth

**3.1.1** Cydnabuwyd mai dim ond pobl o'r fwrdeistref sy'n cael eu derbyn gan y gwasanaeth. Gwelwyd ffeiliau ar gyfer dau gleient ac edrychwyd ar y cynlluniau gwasanaeth a'r asesiadau risg: roedd gan 1 person anawsterau cyfathrebu felly manylwyd ar yr hyn y gallai wneud pe byddai'n dod yn rhwystredig e.e. cnoi ei arddwrn ayyb. Nid oedd unrhyw gymorth yn ofynnol o ran gofal personol ar wahân i anogaeth oherwydd amlygwyd hyn ar y ffeil. Nid oedd unrhyw wybodaeth yn y naill ffeil na'r llall am grefydd oherwydd dywedodd y Rheolwr fod y 2 unigolyn hyn wedi dewis peidio ag ymweld ag unrhyw sefydliad crefyddol tra byddant yn cael gofal seibiant; fodd bynnag, byddai aelodau o staff yn eu cefnogi pe byddent yn

gofyn am hyn. Amlygwyd y byddai'r cynlluniau gwasanaeth yn cael eu diwygio ar ôl gweithredu'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant newydd i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau a'u bod yn manylu ar ddewisiadau'r unigolion.

**3.1.2** Cedwir ffeiliau cyfrinachol dan glo mewn cabinet yn y brif swyddfa pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Tra bydd pobl yn aros yn Montclaire, cedwir eu ffeiliau mewn cabinet dan glo lawr y grisiau i'w gwneud yn fwy hygyrch.

**3.2** Dull gofalu

**3.2.1** Pwysleisiwyd bod y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u perthnasau yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y cartref ac mewn unrhyw benderfyniadau a wneir am weithredu'r cartref. Mae'r holiaduron cyn ac ar ôl arhosiad yn ceisio cael adborth am yr arhosiad ac unrhyw awgrymiadau o ran sut y gellir ei wella.

**3.2.2** Dywedodd y Rheolwr fod cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd yn cael eu cynnal sy'n cael eu cadeirio gan berthynas cleient.

**3.2.3** Mae Montclaire yn hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddarparu gwasanaeth ac anogir hyn ymhellach pan weithredir y cynlluniau gwasanaeth newydd. Mae aelodau o staff hefyd yn mynychu hyfforddiant mewn cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ymgorfforir hyn hefyd yn yr hyfforddiant QCF. Ysgogir annibyniaeth drwy ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar yr holiaduron cyn arhosiad sy'n rhoi gwybod i'r staff cefnogi beth y gall yr unigolyn ei wneud yn annibynnol a beth y gall ei wneud gyda chymorth e.e. coginio prydau bwyd neu olchi dillad. Nodwyd bod aelodau o staff ym Montclaire yn helpu pobl i wneud cymaint ag sy'n bosibl i'w hunain i geisio datblygu sgiliau.

**3.3** Canmoliaeth a chwynion

**3.3.1** Ar ôl yr ymweliad, anfonwyd e-bost ymlaen at y Swyddog Monitro Contract gan berthynas rhywun a ddefnyddiodd y gwasanaeth ac a oedd am gyfleu pa mor rhyfeddol oedd y staff cefnogi, yn ei farn ef. Dywedodd ei fod wedi ymweld â channoedd o gartrefi drwy ei waith ac y teimlai fod Montclaire ymhlith ei 3 gorau. Cynhaliwyd trafodaeth gyda'r Rheolwr i bwysleisio pwysigrwydd rhannu'r adborth hwn, p'un ai drwy gyfarfod adolygu gyda Gweithiwr Cymdeithasol, holiadur ar ôl arhosiad neu gerdyn diolch.

**3.3.2** Dywedodd y Rheolwr nad oedd unrhyw gwynion wedi'u gwneud yn y flwyddyn ddiwethaf ac nad oedd unrhyw faterion wedi'u trosglwyddo i'r Timau Comisiynu neu Ddiogelu. Rhoddwyd tri darn o gyngor gan y tîm diogelu ond ni aethpwyd ymlaen â'r un o'r rhain.

**3.3.3** Er mwyn sicrhau bod y polisi cwynion yn cael ei ddilyn a bod unrhyw broblemau'n cael sylw ar unwaith, mae Rheolwr y cartref yn archwilio'r ffeil gwynion bob mis ac mae'r Rheolwr Tîm yn cynnal archwiliad bob 3 mis. Darperir adborth i unrhyw achwynydd ar lafar, drwy lythyr neu e-bost yn dibynnu ar yr hyn sydd orau ganddo. Adeg yr ymweliad, ni fu angen gwneud unrhyw newidiadau i arfer gwaith o ganlyniad i unrhyw bryderon a godwyd.

**3.4** Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid

**3.4.1** Dywedwyd wrth y Swyddog Monitro Contract fod y Rheolwr wedi cael galwad gan berthynas a ddywedodd nad oedd erioed wedi gweld y cleient mor hapus a bod y cleient wedi mwynhau ei benwythnos yn y gwasanaeth yn fawr a bod rhieni rhywun arall sy'n defnyddio'r cartref wedi sôn bod y lle'n werth y byd iddynt.

**3.4.2** Nid oedd unrhyw newidiadau wedi'u gwneud ar sail yr holiaduron ar ôl arhosiad, ond nodwyd bod rhai materion cydweddoldeb wedi'u codi a bod y rhain wedi cael sylw. Cofnodir yr wybodaeth hon er mwyn cyfeirio ati yn y dyfodol am ei bod yn amhosibl p pa mor dda y bydd pobl yn cyd-dynnu cyn iddynt gwrdd.

**3.4.3** Ar ôl i'r adroddiad Sicrhau Ansawdd gael ei gwblhau, dywedodd y Rheolwr fod hwn yn cael ei rannu gydag unrhyw gleientiaid neu gynrychiolwyr sy'n dymuno cael copi. Anfonir cofnodion y cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd hefyd at aelodau teulu neu gynrychiolydd y rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gofynnodd y Swyddog Monitro Contract fod copi o'r adroddiad yn cael ei anfon i fewnflwch y Tîm Comisiynu pan fydd ar gael.

**3.5** Sefydlu a hyfforddi

**3.5.1** Caiff hyfforddiant a ddarperir ei werthuso drwy oruchwyliaeth reolaidd, cyfarfodydd tîm, taflenni gwaith, arsylwadau, adborth cyffredinol a dyfarniad QCF.

**3.5.2** Fel y soniwyd yn flaenorol, roedd rhai aelodau o staff heb gael rhyw hyfforddiant diweddaru ac roedd rhai heb fynychu pob cwrs gorfodol. Cydnabyddir y gall weithiau fod yn anodd enwebu staff os na chaiff y cyrsiau eu cynnal yn aml, neu os byddant yn cael eu llenwi'n gyflym iawn gan ddarparwyr eraill.

**3.5.3** Roedd tystiolaeth ar y matrics hyfforddiant fod staff yn mynychu hyfforddiant penodol er mwyn gallu bodloni anghenion y bobl a gefnogant e.e. rheoli ymddygiad cadarnhaol, awtistiaeth, epilepsi a dementia.

**3.6** Goruchwylio a gwerthuso

**3.6.1** Nodwyd nad oedd sesiynau goruchwylio'r Rheolwyr yn cael eu cofnodi ar y matrics goruchwylio am fod y rhain yn cael eu rhannu o ran cyfrifoldeb rhwng y Rheolwr a'r Dirprwy Reolwr. Gwelwyd dyddiadau 3 sesiwn oruchwylio ddiwethaf y Rheolwyr ac roedd y rhain yn cael eu cynnal bob mis. Gwelwyd bod dros 2 fis o fwlch i'r Dirprwy Reolwr ond eglurwyd bod hyn yn rhannol oherwydd bod y swydd wedi'i rhannu rhwng 2 eiddo.

**3.6.2** Trafodaethau 1:1 cyfrinachol yw'r sesiynau goruchwylio, sy'n cael eu cofnodi a'u cytuno gan y ddwy ochr. Ambell waith, cynhelir goruchwyliaeth grŵp ar gyfer staff cefnogi achlysurol oni bai bod mater penodol y mae angen mynd i'r afael ag ef yn gyfrinachol. Eglurodd y Rheolwr eu bod yn edrych ar ddulliau goruchwylio eraill a allai fod yn fwy buddiol e.e. sesiynau goruchwylio arsylwi i ddyrannu amser penodol i'r Rheolwr wylio'r arfer gwaith. Dangoswyd dyddiadur i'r Swyddog Monitro Contract a oedd yn rhoi tystiolaeth o arfer da a welwyd gan y Rheolwr lle'r

oedd staff cefnogi wedi coginio prydau bwyd unigol gyda'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac wedi eistedd i fwynhau'r pryd bwyd gyda nhw.

**3.6.3** Roedd sesiynau gwerthuso'n cael eu cofnodi ar fatrics a ddarparwyd ac roedd hwn yn dangos bod pob aelod o staff wedi cwblhau ei werthusiad rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Chwefror 2017.

**3.6.4** Caiff y Rheolwr gymorth gan y Rheolwr Gwasanaeth, y Rheolwr Tîm, staff yn y cartref a hefyd cymheiriaid a chydweithwyr mewn cartrefi eraill yn y fwrdeistref.

**3.7** <u>Materion staffio</u>

**3.7.1** Nodwyd bod 1 aelod o staff wedi gadael yn ystod y 12 mis diwethaf. Eglurodd y Rheolwr ei fod wedi aros yn y sector gofal ac wedi llwyddo i gael dyrchafiad gyda gwasanaeth dydd a oedd yn cynnig oriau mwy strwythuredig. Nodwyd bod cyflogai arall ar fin ymddeol hefyd. Mae 1 aelod newydd o staff wedi dechrau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**3.7.2** Pennir lefelau staffio ar sail yr holiadur cyn arhosiad, adolygiadau a gwybodaeth yr unigolyn yn y tîm. Mae gan Montclaire dîm o staff cefnogi profiadol iawn yn y cartref sydd wedi magu perthynas â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ac yn deall eu hanghenion. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae'r Rheolwr hefyd yn cadw rhestr cydweddoldeb i geisio sicrhau nad yw pobl sy'n gwrthdaro yn aros ar yr un pryd.

**3.7.3** Adeg yr ymweliad, roedd 2 aelod o staff ar absenoldeb salwch hirdymor, ond dywedwyd bod un ar fin dychwelyd. Mae gan y cartref restr o staff llanw y gall ei ddefnyddio os oes angen ond mewn amgylchiadau eithriadol gall ddefnyddio gweithwyr asiantaeth.

**3.8** <u>Amgylchedd y cartref</u>

**3.8.1** Nid oedd unrhyw bryderon am faethiad a gadawyd y rhan hon o'r offeryn monitro nes y cyfnod monitro nesaf; fodd bynnag, nodwyd bod gan y safle'r sgôr uchaf o 5 o'i arolygiad hylendid bwyd.

**3.8.2** Nodwyd bod 1 person sy'n defnyddio'r gwasanaeth â diabetes sy'n ei wneud yn ddibynnol ar inswlin a chofnodir hyn yn glir yn ei ffeil ac mae'r holl staff yn ymwybodol o'r anghenion dietegol a'r goblygiadau i'r unigolyn hwn.

**3.8.3** Cafwyd trafodaeth hefyd am fenyw a oedd wedi'i hatgyfeirio am asesiad SALT a chydnabuwyd bod canllawiau darluniol ar gael yn ei ffeil i helpu'r cyflogeion i wybod pa fwydydd sy'n addas a pha drwch y dylai bwydydd mwtrin fod.

**3.8.4** Roedd pob rhan o'r cartref a welwyd yn lân, yn daclus ac yn groesawgar. Gwelwyd 2 ystafell wely yn ystod yr ymweliad, a oedd yn gyffyrddus a digon o le ynddynt. Nid oedd ystafell ysmygu yn y cartref a rhoddwyd gwybod i'r Swyddog Monitro Contract mai 1 person yn unig sy'n defnyddio'r gwasanaeth sy'n dewis ysmygu y tu allan.

**3.9** Cwestiynau staff

**3.9.1** Dywedodd yr aelod o staff y siaradwyd ag ef eu bod yn cael at gynlluniau gwasanaeth, asesiadau risg a chynlluniau gofal drwy'r ffeiliau papur yn y swyddfa. Caiff staff wybod am unrhyw newidiadau drwy'r llyfr cyfathrebu, cyfarfodydd tîm a thrafodaeth gyffredinol gyda'u cydweithwyr.

**3.9.2** Mae system gweithiwr allweddol ar waith yn y cartref ac mae'r prif gyfrifoldebau ar gyfer y rôl hon yn cynnwys mynychu cyfarfodydd adolygu a rhoi adborth, cynnal ffeiliau unigolion a monitro unrhyw newidiadau mewn angen. Dyrannir 6 unigolyn i bob cynorthwyydd cefnogi.

**3.9.3** Dywedwyd wrth y Swyddog Monitro Contract eu bod yn cael gwybod y diweddaraf am weithrediad cyffredinol y cartref ac yr ymgynghorir â hwy ynghylch unrhyw newidiadau. Os gwnânt awgrymiadau am unrhyw ffyrdd y gellid gwella'r gwasanaeth, roeddent yn teimlo bod y syniadau hyn yn cael eu hystyried yn llawn. Nid oeddent yn teimlo bod unrhyw anghenion hyfforddiant yn ofynnol adeg yr ymweliad, ond dywedwyd bod cyrsiau, megis datblygu llyfrau hanes bywyd, dementia ac anableddau dysgu wedi'u mynychu a'u bod yn rhan fawr o'u rôl.

**3.10** Cwestiynau'r Rheolwr

**3.10.1** Dywedodd y Rheolwr wrth y Swyddog Monitro Contract y byddai'n gofyn am gyngor gan y tîm diogelu pe byddai ganddo unrhyw bryderon am unigolyn sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu am arfer y staff.

**3.10.2** Anogir ffrindiau, aelodau o'r teulu a phrif ofalwyr oll i gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau neu ddigwyddiadau a drefnir. Trafodir y rhain mewn cyfarfodydd perthnasau ac fe'u rhannir drwy sgwrs a chyfarfodydd Sicrhau Ansawdd.

**3.10.3** Mae aelodau staff yn ceisio sicrhau cyfranogiad yn y gymuned drwy amryw o weithgareddau gyda'r cleientiaid, megis mynd allan am brydau bwyd, siopa, sinema, bowlio ayyb, a hefyd drwy'r gwasanaethau dydd.

**3.10.4** Trafodwyd recriwtio staff cefnogi newydd a dywedodd y Rheolwr fod y cleientiaid, os ydynt yn hapus i wneud, yn cael eu hannog i gymryd rhan yn y broses gyfweld a bod yn drydydd cyfwelydd i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

**3.10** Cwestiynau cleientiaid

**3.10.1** Ni fu'n bosibl siarad ag unrhyw un o'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth adeg yr ymweliad am eu bod allan mewn gwasanaethau dydd.

**3.10.2** Ceir adborth gan berthnasau pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a chan yr unigolion eu hunain drwy holiaduron cyn arhosiad ac ar ôl arhosiad. Roedd yr adborth a welwyd yn yr holiaduron yn gadarnhaol, a'r perthnasau'n diolch i'r staff am y gofal a'r cymorth a roddwyd.

**4. Camau Gweithredu Cywirol / Datblygiadol**

**4.1** Camau gweithredu cywirol

**4.1.1** Yr holl staff i gyflawni hyfforddiant gorfodol yn unol ag NMS 26.1.

**4.1.2** Cynlluniau gwasanaeth i ganolbwyntio ar yr unigolyn, a'u llunio gan gynnwys yr unigolyn, teulu, ffrindiau neu eiriolwyr fel y bo'n briodol yn unol ag NMS 6.6.

**4.1.3** Cynlluniau gwasanaeth i'w llofnodi gan yr unigolyn a/neu berthynas neu'r rheswm pam nad ydynt wedi'u llofnodi i gael ei ddogfennu'n briodol. NMS 6.6

**4.1.4** Adroddiadau Sicrhau Ansawdd blynyddol i'w cwblhau a'u rhannu gyda phob rhanddeiliad, a'u hanfon mewn e-bost i'r Tîm Comisiynu. NMS 30.4

**4.2** Camau gweithredu datblygiadol

**4.2.1** Staff i barhau i fynd ati i gofnodi unrhyw ganmoliaeth, dyddio unrhyw lythyrau neu gardiau a gafwyd ac anfon yr wybodaeth hon ymlaen i'r Tîm Comisiynu.

## 5. Casgliad:

**5.1** O'r 7 argymhelliad blaenorol a wnaed, bodlonwyd 2, bodlonwyd 3 yn rhannol ac roedd 2 heb eu bodloni. Mae'r camau gweithredu wedi lleihau o saith i bump ac ni nodwyd unrhyw gamau gweithredu newydd yn ystod yr ymweliad monitro.

**5.2** Roedd yn amlwg o'r drafodaeth gyda staff ac o'r ffeiliau fod yno wybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad trylwyr o anghenion yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Teimla'r Swyddog Monitro Contract y bydd y cynlluniau gwasanaeth newydd wedi'u diweddaru yn cynorthwyo i grisialu'r wybodaeth ymhellach i'r staff cefnogi, er mwyn ei rhannu gyda dechreuwyr newydd.

**5.3** Mae'r gwasanaeth yn un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac mae'r gweithgareddau, y prydau bwyd a'r ystafelloedd gwely i gyd yn seiliedig ar ddewisiadau'r bobl sy'n aros yno. Teimlwyd bod Montclaire hefyd yn canolbwyntio ar ganlyniadau am eu bod yn hyrwyddo annibyniaeth cymaint â phosibl ac yn ceisio datblygu sgiliau yn hytrach na gwneud popeth i'r cleient.

**5.4** Yn unol â'r strategaeth fonitro, bydd ymweliad monitro arall yn cael ei gynnal ymhen rhyw 12 mis oni ystyrir bod angen cynnal hwn cyn hynny.

**5.5** Hoffai'r Swyddog Monitro Contract fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Rheolwr a'r Dirprwy Reolwr am eu hamser a'u croeso cynnes drwy gydol y Broses Fonitro.

**Awdur:** Amelia Tyler
**Dynodiad:** Swyddog Monitro Contract
**Dyddiad:** 13 Mehefin 2017

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael drwy safle Rhyngrwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar breswylwyr a/neu eu teuluoedd pe byddent yn gofyn am eu gweld.